# Y BANC

Hyfedredd



# Trafod Bwlio yn y Gweithle



Cam 1 – Cyn Dechrau
(Geirfa a Phatrymau)



Cam 2 – Ymarfer Cadarnhau
(Ffurfiau Lluosog Anarferol)



Cam 3 – Trafod, Deall ac Ystyried
(Bwlio yn y Gweithle)



Cam 4 – Llenwi'r Bylchau Trwy
Ddewis y Geriau Iawn



Cam 5 - Ymarfer Llafar




Darn Sain 1 (Safonol)
Darn Sain 2 (Naturiol)

# Nodyn i'r Tiwtor

## Hyd: 2.5 - 3 awr

Bydd angen llungopïo'r camau gwahanol ar gyfer pawb yn y dosbarth.  Maent i gyd yn A4 i wneud pethau'n haws.

**Amser Paratoi:** 10 munud ac amser ymgyfarwyddo.

# Cam 1 - Cyn Dechrau

| | |
|---|---|
| Anghenion* | Gweithred |
| Annigonol | Pensiynau* |
| Bychanu | Rheoliadau |
| Bygythiad | Swyddi is |
| Dyrchafu | Tanseilio hyder |
| Gwahardd | Ymdrechu |

* Yn cael sylw yn yr Ymarfer Cadarnhau (Cam 2)

acen

# Y BANC

Hyfedredd



## Cam 2 - Ymarfer Cadarnhau
### Chwilio am Ffurfiau Lluosog Anarferol

Mae pob un o'r geiriau hyn yn newid ffurf ychydig yn y lluosog. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall ystyr y geiriau. Wedyn, gyda'ch partner, chwiliwch am y ffurfiau lluosog yn y chwilair. Rhestrwch y ffurfiau lluosog wrth i chi ddod o hyd iddynt a thrafodwch y newidiadau ar y diwedd.



**angen**
**anghenfil**
**amlen**
**annibynnwr**
**arddangosfa**
**arhosfan**
**blaendal**
**brân**
**bwthyn**
**cant**
**oedolyn**
**peiriant**
**pêl**
**pensiwn**
**saer**
**swn**
**synnwyr**
**sylfaen**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | E | L | I | DD | F | B | J | A | N | G | H | E | N | I | O | N | C | S |
| B | O | C | U | A | TH | R | Y | M | A | TH | L | T | M | DD | F | J | G | Y |
| I | A | E | S | Y | N | A | U | N | H | G | S | S | B | W | L | H | E | L |
| H | M | D | L | O | J | I | W | Y | E | FF | E | RH | L | I | A | I | O | F |
| A | R | O | S | F | A | N | N | A | U | C | I | R | A | J | D | Y | FF | E |
| N | A | FF | Y | S | B | I | L | E | M | H | R | L | E | N | G | L | N | I |
| G | U | D | N | J | H | RH | P | E | I | R | I | A | N | N | A | U | D | N |
| E | E | DD | H | F | A | Y | C | Y | G | Y | B | W | D | U | R | O | G | I |
| N | T | RH | W | R | S | M | A | T | A | E | W | C | A | H | D | A | F | L |
| F | G | L | Y | B | NG | W | L | C | O | E | D | O | L | I | O | N | U | U |
| I | R | T | R | P | CH | E | G | E | J | S | D | W | I | R | R | N | T | A |
| L | B | W | A | U | F | DD | A | W | N | O | B | TH | A | U | CH | I | Y | N |
| O | F | Y | U | W | E | L | M | G | J | N | DD | H | D | N | B | B | W | Y |
| D | I | F | D | O | NG | L | A | R | S | A | I | O | A | L | P | Y | P | I |
| U | A | M | N | P | FF | A | M | T | G | NG | P | U | U | RH | I | N | E | S |
| G | W | N | D | B | Y | TH | Y | N | N | O | D | E | C | F | NG | W | J | N |
| N | A | E | U | S | F | B | T | F | I | B | N | W | TH | G | H | Y | Y | E |
| C | U | I | A | R | DD | A | NG | O | S | F | E | Y | DD | J | G | R | P | P |

**Ffurfiau Lluosog**

# Y BANC

**Hyfedredd**



## Cam 3 – Trafod, Deall ac Ystyried

Yn gyntaf, trafodwch y pynciau yng Ngrid 1. Os oes ffeil sain i gyd-fynd â'r darn hwn darllenwch trwy'r cwestiynau yng Ngrid 2 gan sicrhau bod popeth yn glir. Wedyn gwrandewch ar y darn a cheisio ateb y cwestiynau gyda'ch partner. Cewch wrando sawl gwaith. Cewch wedyn ddarllen trwy'r sgript yn fanwl. Ar ddiwedd yr ymarfer, dylid trafod y pynciau a nodir yn y trydydd grid.

Os nad oes ffeil sain, darllenwch trwy'r cwestiynau yng Ngrid 2 gan sicrhau bod popeth yn glir. Wedyn darllenwch y darn gyda'ch partner a cheisio ateb y cwestiynau. Popeth arall fel uchod.

### Grid 1 – Cyn Troi at y Darn

Beth, i chi, ydy bwlio yn yr ysgol?

...................................................................................................

Ydych chi'n nabod unrhyw un gafodd ei fwlio yn yr ysgol? Beth ddigwyddodd?

...................................................................................................

Beth ddylai ddigwydd os bydd plentyn yn cael ei fwlio yn yr ysgol?

...................................................................................................

### Grid 2 – Deall y Darn

Beth ddigwyddodd yn 2005?

...................................................................................................

Nodwch ddau fath o fwlio yn y gweithle.

...................................................................................................

Pam mae'n bwysig i bawb gael cynnig hyfforddiant?

...................................................................................................

### Grid 3 – Ar ôl Darllen y Darn

Ymrannwch yn grwpiau o 3-5. Chi ydy Cyfarwyddwyr Widgets-R-Us Wales. Rydych yn poeni bod bwlïo yn digwydd yn un o'r adrannau ond does neb yn fodlon dweud unrhyw beth achos pennaeth yr adran ydy'r bwli. Penderfynwch beth i'w wneud.

...................................................................................................



## Sgript y Darn Gwrando/Darllen
## Bwlio yn y Gweithle



Bwlio yn y gwaith ydy'r weithred o ymdrechu i wneud i unrhyw aelod o'r staff deimlo dan fygythiad a hynny yn aml iawn o flaen gweithwyr eraill. Yn aml, gweithwyr sydd mewn swyddi is sydd yn cael eu bwlïo ond nid yw hynny'n wir bob tro.

Yn 2005, cyflwynwyd rheoliadau newydd sy'n gwahardd unrhyw fwlio neu gam-drin – ac mae hynny'n cynnwys peidio â gadael i weithwyr fanteisio ar gynlluniau hyfforddi.

Mae mathau gwahanol o fwlio. Weithiau ceir cam-drin corfforol ond mae bwlïo yn aml yn golygu cam-drin geiriol, bychanu a thanseilio hyder.

Yn gyffredinol, ystyrir y bydd aelod o'r staff yn cael ei fwlio os bydd yn cael ei fychanu o flaen pobl eraill, ei drin yn annheg yn rheolaidd neu ei gam-drin yn gorfforol neu'n eiriol. Ystyrir y bydd yn cael ei fwlio hefyd os ydy'r cyflogwr yn anwybyddu anghenion y gweithiwr.

Bydd yn cael ei fwlio os bydd yn cael ei feio ar gam am bethau sydd yn digwydd yn y gweithle neu os bydd, yn rheolaidd, yn cael gormod o waith i'w wneud ac felly'n teimlo'n annigonol.

Rhaid i gyflogwyr sicrhau nad ydynt yn bygwth diswyddo staff heb achos ac nad ydynt yn ffafrio gweithwyr eraill trwy eu dyrchafu, trwy gynnig pensiynau gwell neu drwy gynnig hyfforddiant iddynt.



## Cam 4 – Llenwi'r Bylchau
### Trwy Ddewis y Geiriau iawn

**Llenwch y bylchau yn y darn hwn gan ddefnyddio'r geiriau ar yr ochr. Dim ond unwaith mae modd defnyddio pob gair.**

Bwlio yn y gwaith ydy'r ______________ o ymdrechu i wneud i unrhyw aelod o'r staff deimlo ______________ fygythiad a hynny yn aml iawn o flaen gweithwyr eraill.  Yn aml, gweithwyr sydd mewn swyddi ______________ sydd yn cael eu bwlio ond nid yw hynny'n wir bob tro.

Yn 2005, cyflwynwyd ______________ newydd sy'n gwahardd unrhyw fwlio neu gam-drin – ac mae hynny'n cynnwys ______________ â gadael i weithwyr fanteisio ar gynlluniau hyfforddi.

Mae mathau ______________ o fwlio.  Weithiau ceir cam-drin corfforol ond mae bwlïo yn aml yn ______________ cam-drin geiriol, bychanu a thanseilio ______________.

Yn gyffredinol, ______________ y bydd aelod o'r staff yn cael ei fwlio os bydd yn cael ei fychanu o flaen pobl eraill, ei drin yn annheg yn rheolaidd neu ei gam-drin yn gorfforol neu'n ______________.  Ystyrir y bydd yn cael ei fwlio hefyd os ydy'r cyflogwr yn anwybyddu ______________ y gweithiwr.

Bydd yn cael ei fwlio os bydd yn cael ei ______________ ar gam am bethau sydd yn digwydd yn y gweithle neu os bydd, yn rheolaidd, yn cael gormod o waith i'w wneud ac felly'n teimlo'n ______________.

Rhaid i gyflogwyr sicrhau nad ydynt yn ______________ diswyddo staff heb achos ac nad ydynt yn ffafrio gweithwyr eraill trwy eu dyrchafu, trwy gynnig ______________ gwell neu drwy gynnig hyfforddiant iddynt.

anghenion

annigonol

bygwth

dan

eiriol

feio

golygu

gwahanol

hyder

is

peidio

pensiynau

rheoliadau

weithred

ystyrir



## Cam 5 - Ymarfer Llafar

### Trafod Swydd

**Bingo Swyddi**

Gweithgarwch ysgafn. Mae pawb yn y dosbarth yn derbyn un o'r cardiau bingo hyn. Y nod wedyn ydy holi partner i weld faint o'r profiadau ar y cerdyn sy'n berthnasol iddo. Pan geir ymateb cadarnhaol, dylid rhoi croes trwy'r sgwâr perthnasol. Bob yn awr ac yn y man dylid newid partneriaid. Yr enillydd ydy'r cyntaf i gael (i) llinell ac wedyn (ii) tŷ llawn.

Ar ôl yr ymarfer neu ar gais y tiwtor, dylai pawb fynd i grwpiau o 3-5 i holi'n fwy manwl am rai o'r profiadau.

Ô.N. Os ydych chi wedi ymddeol, mae modd trafod yr hyn a oedd yn arfer digwydd – 'Oedden nhw'n gweithredu cynllun oriau hyblyg yn y gwaith?'

**Cofiwch ddatblygu pob sgwrs. Byddwch yn barod i ofyn am fwy o wybodaeth a'i chynnig**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wedi gorfod gweithio trwy'r nos erioed | Wedi gweld bwlio yn y gwaith erioed | Wedi gwneud camgymeriad ofnadwy yn y gwaith erioed | Yn gobeithio ymddeol yn gynnar |
| Yn dewis cyrraedd y gwaith yn gynnar | Yn perthyn i gynllun pensiwn | Wedi gofyn am godiad neu delerau gwell erioed | Wedi cael blwyddyn sabathol o'r gwaith erioed |
| Yn gweithredu cynllun oriau hyblyg yn y gwaith | Wedi cael dyrchafiad annisgwyl erioed | Wedi gorfod cymryd mwy nag wythnos o'r gwaith erioed oherwydd salwch un o'r teulu | Wedi gorfod diswyddo rhywun erioed |
| Yn cael mwy nag ugain diwrnod o wyliau y flwyddyn | Wedi cyfarfod â rhywun pwysig yn y gwaith erioed | Wedi gorfod gweithio mwy na 48 awr yr wythnos erioed | Wedi gorfod ymdrin ag aelod anodd o'r cyhoedd erioed |